

Atodiad 2: Addasiadau i Sgiliau Hanfodol ar gyfer Pobl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

<p>Bydd yr addasiad sydd i'w wneud yn cael ei ystyried fesul achos a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y prentis a'i asesiad. Gall yr addasiad fod yn gymwys i un pwnc neu'r holl sgiliau hanfodol a bennwyd, fel sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau. Os yw'r addasiad ond yn cael ei gymhwyso i un pwnc, bydd y gofynion arferol ar gyfer y pwnc nas addaswyd yn parhau i fod yn gymwys.</p> <p>Wrth benderfynu a ddylid addasu'r gofynion sylfaenol ar gyfer cyfathrebu, cymhwyso rhif a/neu lythrennedd digidol, gall y darparwr ystyried y canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none">Cynnwys fersiwn gyfredol neu fersiwn a roddwyd yn flaenorol o Gynllun Datblygu Unigol (CDU), datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (AIG), neu Gynllun Dysgu a Sgiliau (CDS) a baratowyd mewn perthynas â'r prentis;Canfyddiadau asesiad â thystiolaeth sy'n dangos y byddai'r prentis dan anfantais sylweddol pe bai'r cymwysterau gofynnol safonol yn berthnasol iddo, a pha gamau y gall fod yn rhesymol eu cymryd i osgoi'r anfantais hwnnw;A fyddai'r prentis, pe bai unrhyw ofynion sylfaenol o ran sgiliau hanfodol yn cael eu haddasu neu eu hepgor, yn debygol o allu bodloni'r gofynion gwybodaeth a sgiliau ar gyfer y brentisiaeth a dod yn gymwys yn alwedigaethol cyn diwedd ei brentisiaeth;A fydd y prentis yn gallu bodloni unrhyw ofynion sylfaenol o ran sgiliau hanfodol ar gyfer diwydiant penodol.	
---	--